Cofnodion cyfarfod 12fed o Fawrth 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr		
PRESENNOL		
Eifion Williams	Nel Huws	
Cynog Prys	Daniel Williams	
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws	
	Cynghorydd Sir Iwan Huws	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan, Elenid Glyn, Llŷr Evans, Emyr Gareth a Meleri Jones.	
1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Cafwyd ymweliad gan y Y Tad Dylan Williams (Arweinydd Bro Gweinidogaeth Bro Peblig) a trafodwyd materion cyffredinol.	
1.3	Cafwyd ymweliad hefyd gan Anwen Lynne i sgwrsio am faterion Bioamrywiaeth a gwaith Bwyd Bendigedig. Hefyd y gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor. Y Cyngor i drefnu cyfarfod gyda Bwyd bendigedig, Y Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd i drafod ardaloedd y gallwn gadw yn ddi doriad ar gyfer planhigion gwyllt a bywyd gwyllt. Dywedodd Anwen Lynne bod grant ar gael gan Partneriaeth Natur Gwynedd ac efallai bod modd gwneud cais ar gyfer yr arian ar gyfer prosiectiau fyddai yn cefnogi eu gwaith mewn ardaloedd o fewn y gymuned yn enwedig ar y Lon Las sydd o dan brydles i'r Cyngor Cymuned. Cynnigwyd ac eilwyd bod y Cyngor yn cyfarfod a Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd. Y Clerc i gysylltu a John Hywyn o Gyngor Gwynedd.	**CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
3.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Chwefror 2024 - derbyniwyd.	**CLERC**
4.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI**	
4.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2024 yn rhai cywir.	**CLERC**
4.2	Toiledau – Dywedodd y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad a Robinsons i drafod y toiledau, cynlluniau'r dyfodol a'r ardal ger y toiledau sydd yn mherchnogaeth Robinsons. Bydd Robinsons mewn cyswllt maes o law.	**CLERC**
4.3	Cynllun Rheoli Traffig – nid oes gwybodaeth ynglŷn a dyddiad wedi dod i law.	**CLERC**
4.4	Biniau Cae Peldroed Ffordd Lan y Môr. Dim dilyniant wedi bod, mae'r Adain Gofal Stryd Cyngor Gwynedd wedi derbyn gohebiaeth eto ar y mater.	
4.5	Materion Priffyrdd – gwaith i'r cyflenwad dwr ger chans qwedi ei gwblhau. Dim gohebiaeth wedi dod ar wyneb ffordd Rhes Gwelfor dim ond i ddatgan bod y mater ynd erbyn sylw.	**CLERC**

4.6	Gobeithir trefnu ymgyrch codi sbwriel yn fuan drwy gysylltu a grwpiau o fewn y Gymuned i'w gwahodd i ymuno ar fore Sul. Y Cynghorydd Daniel Williams i gydgordio'r digwyddiad.	**DW CLERC**
4.8	Cyflwr y Jetty – mae'r mater wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd a mae Swyddog yn edrych i fynd a'r safle yna bydd yn gallu anfon adroddiad yn ol at y Cyngor wedi hynny.	**CLERC**
4.9	Cafwyd wybodaeth fan yr adain Llwybrau Cyhoeddus bod Llwybr 16 yn cael ymweliad sale yn aml oherwydd bod cerrig yn cwympo i lawr o'r wal cynnal. Mae'r gwaith gyda a'r tir feddianwyr yn parhau oherwydd mae'r bwlch yn y waly n syrthio rhwng dau berchennog. Mae yna fater arall yn bodoli yma hefyd gyda draen sydd wedi eu rhwystro rhag gweithio ond mae'r gwaith yma i'w gwblhau yn fuan. Nid oes cyllid ar hyn o bryd ynglyn a'r broblem dwr sydd yn arllwys i Lwybr 17 o Brynffynnon. Gobeithir bod cyllid ar gael yn y flwyddyn ariannol newydd ond mae'r mater yma wedi ei dros glwyddo i Priffyrdd. O ran wyneb y llwybr gobeithir rhoi concrid arno yn y flwyddyn ariannol newydd.	
4.10	Golau Stryd Pen Ceunant – bydd yr adran Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd yn ymweld a'r safle ac yn adrodd yn ol at y Cyngor.	
5.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
5.1	Rhif Cais / Application No.: C24/0139/20/DT Lleoliad: 1 Tai Gwelfor, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4TQ Bwriad: Dymchwel ystafell haul ac estyniad presennol yng nghefn yr eiddo a chodi estyniad newydd unllawr to fflat. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
5.2	Rhif Cais: C24/0145/20/DT Lleioliad: 11 Trem Y Foel, Y Felinheli, LL56 4UZ Bwriad : Codi estyniad deulawr ar flaen yr annedd a chodi ardal patio ar lefel uwch. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.0	**CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISÏAU A GWEFAN**	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	**ASEDAU**	
	Dim i'w adrodd	
8.0	**LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD**	
8.1	Glweler eitem 4.9	**CLERC**
9.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
9.1	Mae asesiad digarboneiddio wedi ei drefnu.	**DW**
10.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Bydd y Cynhorydd Daniel Williams yn ymweld a chynhadledd ar lifogydd ac yn y blaen yn Llandudno. Mae'r Digwyddiad wedi ei drefnu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor wedi hynny	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn yr hwyr.	

Llofnod:	